Digitized by the Internet Archive
in 2011 with funding from
Corporation of the Presiding Bishop, The Church of Jesus Christ of Latter-day Saints

http://www.archive.org/details/tystioliaethaudi00jone

TYSTIOLIAETHAU DIWRTHBRAWF

NAD O'R

"SPAULDING ROMANCE"

Y GWNAED

LLYFR MORMON!!!

Nid anadnabyddus i nemawr, mewn unrhyw ardal, tref, na gwlad drwy y byd, lle y ceir Llyfr Mormon, ydyw yr ymdrechiadau amrywiol a dyfeisgar a wneir i rwystro crediniaeth ynddo; ac nid llai gwybodus na hyny yw y ffaith mai y rhai a broffesant fod yn ddysgawdwyr crefydd, megys "Offeiriaid," "Peirch," "Pregethwyr," ac athrawon yn mhlith pob cenedl, yw cadfridogion y fyddin filwriaethus i'w erbyn heb eithro plaid, proffes, nac enwad; ac o blith eu holl ymosodiadau arno, credant mai yr hyn a alwant yn "*Spaulding Story*" yw eu ffondafl gryfaf, eu magnel drymaf, a'r *Tomahawk* sydd yn rhoddi yr ergyd marwol i Formoniaeth; ni welsom nemawr draethodau, ac ni chlywsom braidd erioed bregeth heb fod hon yn blaster ar ryw gwr o honi, ac ni chywsom sôn am nemawr gawr na choryn yn myned allan yn erbyn Mormoniaeth heb ymffrostio fod yr "asgwrn gên asen" trwsgl hwn, er hened yw, wedi trywanu siol a bod yn dranc i Formoniaeth trwy rym ei gadarn fraich ei hun. Gwisgwyd hi allan yn, ac ysgymunwyd ei hysgerbwd hi o'r byd gorllewinol; eithr draws y môr, drosodd daeth, ac i'r dosparth a enwyd a'u gwasaidd lu Golygyddol, nid oedd tiriad "Kossuth," Awdures "*Uncle Tom's Cabin*," ac ni fyddai tiriad yr Americ eu hun i'w crafangau yn boddio eu chwaeth yn fwy, debygid! I'r dim,—yn gywir—yn feddyginiaeth hollol i'w harchollion, yn gadernid rhag eu hofnau, ac yn rhwyd i ddal eu hudoledigion rhag dianc o'u bachau,—yn ol eu dewisiad, dyma hi! O'r newydd da,—cadwer dydd gwyl ei

thíriad hi! Mewn cerbydau i'r pwlpudau a'r Newyddiaduron, er gosod y byd ar dân, gýrwch yn mlaen y "Spaulding Story" anwyl!

Er mor hen a musgrell y prawf yr olrheiniad canlynol i'w hachau ei bod hi, etto, y mae wedi teithio hyd a lled y ddaear braidd! O'r Rwsia i Pategonia—holl ynysoedd y Môr Tawel, Cyfandir Affrica, a gorsafou yr India bell,—lle bynag y ceir Cenadwr, Esgob, neu sectwr selog yno ceir hi!

Mae y ddichell anwireddus am darddiad Llyfr Mormon o'r "*Spaulding Story*" wedi cael ei gwrth-brofi mor aml, mor eglur a thrwyadl yn yr Americ, yn Lloegr, a chenym ninnau yn Nghymru er's blynyddau yn ol, fel yr oeddem wedi cael lle i gredu y cywilyddiai hyd y nod yr un "Offeiriad" i'w hadrodd mwyach, ac ni fuasem yn diwyno ein dwylaw i gyffwrdd â hi yn awr, oddieithr bod y tylwyth cyfeiriedig yn gwneuthur ail ymdrech yn ddiweddar i'w hadgyfodi a'i lledaenu drwy'r wlad, ac y dichon fod llaweroedd a ymunasant yn ddiweddar neu a ymchwiliant i'n crefydd yn awr, heb weled y gwrthbrawfiadau hyny. Mae o'n blaen yn awr, nemawr llai na dwsin o bamphletach Cymraeg a Seisneg yn ceisio dweyd yr ystori hon, ac ni chawn ddau o honynt heb fod yn wahanol, os nid yn hollol groes i'w gilydd o barthed iddi. Nid ymdrafferthwn i sylwi arnynt ar wahan, ond awn o dan eu gwraidd hwynt oll ar unwaith, er cywilydd, debygwn, i'r "Parch. G. C. F. Harries, A. C.," am ei gyfleithad o honi, yn nhracthawd anwireddus y "Parch. F. B. Ashley." a'r Parch. William Rowlands," Curad Merthyr Tydfil a'i Gatechism gwarthus, os oes cywilydd ynddynt; a chwilyddied yr Offeiriaid ereill lu, y rhai ydynt heb well gwaith na thaenu y chwedlau ffol hyn ar hyd tai, tref a gwlad. Ai gwerth y 'Degwm' o holl ffrwyth ein daear yw gwaith fel hyn? Gwaith ag y buasai yn well iddynt pe nas genasid hwy na'i wneuthur! Gwaith ag y meddwn lawnder o wirioneddau i'w brofi yn dusw o anwireddau cyd-blethiedig o gwr bwy gilydd, serch y llu "Peirch," a'r teitlau ereill a'i cefnogant, a'r rhai a gaffant ymddysclaerio yn ngolau haul o flaen llygaid y cyhoedd, fel y ceir hamdden, nes y cyfaddefa pob carwr y gwir mai gweision gwasaidd "tad y celwydd" a'i gwnaeth yn bwrpasol i dwyllo. Felly dechreuwn gyda y "*Spaulding Story*;" dywed dyfeiswyr y ddichell gyfeiriedig fod

dyn o'r enw Solomon Spaulding, er dyfyrwch iddo ei hun wedi ysgrifenu *romance* yn proffesu rhoddi hanes cyn breswylwyr yr Americ, megys pe wedi ei hysgrifenu gan un o honynt, yr hwn a alwai yn "Llaw Ysgrif ddarganfyddedig," ac fel pe wedi ei hadferyd yn awr o'r ddaear. Haerir fod yr ysgrif wedi cael ei rhoddi i law dyn o'r enw Patterson, Argraffydd yn byw yn Pittsburgh, fod un o'r enw Sydney Rigdon yno ar y pryd, ac iddo gael yr ysgrif, a'i fod ef wedi cynnorthwyo Joseph Smith i wneuthur Llyfr Mormon o honi, drwy ychwanegu atti rahau o'r Ysgrythyrau, &c. I wirio hyn dygir yn mlaen bethau a broffesant fod yn dystiolaethau gweddw y Mr. Spaulding hwnw, ei frawd 'Parchedig,' a lluaws o 'Beirch' a theitlau anrhydeddusaf y teulu 'duwiolfrydig' hwn, pe cywirach am hyny!

Yn awr am chwilio eu "noddfäau celwyddol" Cyhoeddwyd y pethau hyn yn gyntaf mewn traethawd a enwid "*Mormonism Unveiled*," gan E. D. Howe, Painsville, Ohio, U. D. America, eithr awdwr gwreiddiol y llyfr oedd dyn o'r enw D. P. Hulbert, ychydig o hanes cymmeriad yr hwn a gynnorthwya i iawn ddeall yr hanes cyfeiriedig. Dyfynwn yn gyntaf dystiolaeth ddiwrthbrawf boneddwr adnabyddus iawn o hono o'r enw Mr. B. Winchester, yr hon, er ei chyhoeddi ar y pryd, ac ar chwareulawr y campwyr hyn, ni ddeallasom i neb o honynt ei hammheu erioed. Dyma a ddywed, a barned y darllenydd drosto ei hun:—

"Daethym yn adnabyddus â Mr. Hulbert yn James' town, talaeth Caerefrog Newydd. Yr oedd efe wedi bod yn bregethwr cynnorthwyol gyda y Wesleyaid, ond wedi cael ei ysgymuno am odineb. Yn mhen ysbaid wed'yn ymunodd â'r Saint, ac aeth i Kirtland yn Ohio, lle, yn mhen amser y galwyd ef yn bregethwr, a bu yn pregethu yn llwyddiannus am yspaid yn Pensylvania; ond syrthiodd i bechodau gwarthus, megys godineb, &c., ac ysgymunwyd ef gan y gynnadledd, a hwy ag ymmerasant ei drwydded oddiarno, etto ar ei edifeirwch a'i addunedau teg goddefwyd iddo aelodaeth o'r diwedd yn Kirtland. Ar ei ddychweliad oddiyno, ymosododd ar un o ferched Mr. Thomson, o swydd Geauga, Ohio, gan geisio ei threisio, a daliwyd ef yn y cyflawniad o'r weithred ysgeler. Gollyngwyd ef ar ammodau, ac ysgymunwyd ef o'r eglwys am byth o herwydd hyny. Pan welodd Hulbert ei fod wedi andwyo ei hun yn

ngholwg y Saint a'i gydnabod, ymosodedd ar y gwaith o ymddïal ar Joseph Smith, &c. Aeth oddiamgylch y wlad i ddarlithio yn erbyn blaenoriaid y Saint, gan draethu pob camgyhuddiadau yn erbyn cymmeriad Joseph Smith a'i deulu, gan dynu i lawr hyd ei allu yr hyn a adeiladasai gynt. Tra yr oedd Hulbert gyda y Saint cyhuddid ef gan bregethwyr, crefyddwyr, a'i gydnabod, am y dyn gwaethaf yn y wlad; beient y Saint yn fawr am adael i'r fath ddyn le yn eu plith, a'i fod yn rhwystr i ereill ddod yn mlaen, ond pan y trodd yr un Hulbert yn erbyn y Saint, agorai drysau capeli a thai o'i flaen, a heidiai yr un pregethwyr a chrefyddwyr yn llu oedd i'w wrando, a llyncent ei gelwyddau dyfeisiol, yn awyddus iawn a melys: ïe, mor awyddus a'u penau yn agored, ag y dysgwyliai yr ysgrifenyddion gynt am i Pilat arwyddio dedryd Mab Duw. Yn lle drygu Mormoniaeth fel hyn, gwelodd Hulbert mai ei chynnyddu yr oedd yn rhyfeddol, drwy alw sylw dynion meddylgar i'w chwilio, a chan fod y *stock* o gelwyddau yn suro drwy ei hail adrodd o hyd, penderfynodd ddyfeisio rhyw ddichell arall i wrthryfela yn fwy llwyddiannus yn erbyn y Saint. Pryd hyn daeth yn adnabyddus a dyn o'r enw Mr Jackson, ac ereill, yn Nhrefedigaeth Jackson, Pa., y rhai oeddynt yn adnabyddus bersonol â dyn o'r enw Solomon Spaulding, yr hwn er's llawer o flynyddau cyn hyn a ysgrifenasai yr 'ysgrif' gyfeiriedig. Dyma y gair cyntaf a glywsai Hulbert am enw Mr. Spaulding na'i ysgrif ychwaith. Nid oedd neb o'r bobl hyny erioed wedi meddwl fod un tebygolrwydd, llawer llai cyssylltiad, rhwng yr ysgrif hono â Llyfr Mormon. Wedi hyn yr hatchiodd Hulbert y ddyfais annuwiol, 'mai o'r ysgrif y tarddodd Llyfr Mormon;' a phan ddychwelodd yma dro arall wedi llunio ei ystori, gan geisio gan Mr. Jackson ac ereill, pa rai oeddynt wedi darllen yr ysgrif, ac wedi darllen Llyfr Mormon, law-arwyddo y *tebygolrwydd*, mai o'r ysgrif y gwnaed Llyfr Mormon, hwy a'i ffieiddiasant yn fawr: a chan ei annog i ennill ei fara drwy ffordd onest yn hytrach na chynllunio ystori ddisail i dwyllo ei gyd-ddynion,'—gyrasant ef ymaith.

Tystia y bobl hyn i'r peth hyn, yn enwedig Mr. Jackson, yr hwn oedd wedi darllen yr 'ysgrif' a Llyfr Mormon! Ac wrth geisio perswadio Hulbert i adael ei ddyfais warthus, a ddywedai

'NAD OEDD DIM TEBYGOLRWYDD RHWNG Y DDAU LYFR.'

Dyry Mr. Jackson ergyd marwol i'r oll fel y canlyn:—

'Ac,' ebe fe, 'traethodyn bychan iawn oedd un Mr. Spaulding. ar ddull *novel*. *Nid oedd yn sôn gair am, nac yn cyfeirio at* BLANT ISRAEL; ond proffesai roddi hanes rhyw genedl a ddaethent o Rufain; yr hyn a broffesai Mr. Spaulding fod wedi ei gyfieithu o *Latin parchment* a ddarganfyddodd. Ond am Lyfr Mormon, (ebe efe), proffesa fod wedi ei ysgrifenu gan un o LWYTHAU ISRAEL, ac ar briod-ddull *hollol wahanol i'r llall*." Dyma dystiolaeth un o'r dynion uchaf ei gymmeriad yn y swydd hono, a dylai fod a'i chyd-gordiad â'r llyfr ei hunan yn foddhaol i lonaid byd o bobl synwyrol. A gommeddodd Mr. Jackson ei enw i Hulbert wrth y fath ddyfais warthus. Etto cymmaint oedd casineb Hulbert at y gwirionedd, ei awydd i rwystro pobl ei gredu, a chan feddwl yr ennillai ychydig ddollars oddiwrth hyn, fel na chollai y cyfleustra hwn i geisio profi mai y *novel* hono oedd gwreiddyn Llyfr Mormon. Wedi methu a llwyddo yn y parth hwnw, aeth i Kirtland, a chyhoeddodd gyfarfod, a gwahoddodd bawb oedd yn anghredu 'Mormoniaeth' i'w gynnorthwyo ef 'i'w rhoddi i lawr yn llwyr ac am byth.' Cafodd lawer o bleidwyr rhwng pregethwyr. proffeswyr rhagfarnllyd, a phawb a gasaent y Saint o herwydd eu crefydd; ffurfiasant eu hunain yn gommittee i gynnorthwyo Hulbert yn erbyn Mormoniaeth, dan yr enw Gwrth-Formoniaid.

Hysbysodd Hulbert iddynt ddarfod iddo glywed yn Pensylvania fod rhyw S. Spaulding wedi ysgrifenu *novel*, ac y gellid dangos *tebygolrwydd* fod S. Rigdon wedi ei gael, ai alw yn "Llyfr Mormon." Dywedodd ei fod ef ar fedr ysgrifenu Llyfr i'r dyben hyny, ac i wrthwynebu Mormoniaeth yn mhob dull arall a allai, os cynnorthwyent hwy ef ag arian i hyny. Mawr y llawenydd a achosodd y newyddion da hyn i'w gommittee, ac ereill o'r un chwaeth; penderfynasant yn unfrydol i'w osod ar y gwaith gyda brys mawr. Anrhegodd un pregethwr gyda y Campbellaid, o'r enw Newel (mobocrat nodedig) ef â 300 o ddollars, er mwyn cyhoeddi y Llyfr; enw yr hwn oedd i fod '*Mormonism Unveiled*;' ereill o honynt a gyfranasant i'r un perwyl. Galluogodd hyn Hulbert i gychwyn yn gyflym ar gefn ei geffyl; a'r fan gyntaf ag yr anelodd ato oedd New Salem, (y fan lle y trigai Mr. S. pan ysgrifenodd ei 'ysgrif.') Wedi cyrhaedd, galwodd amryw ynghyd o'r rhai oedd yn elyniaethus at

y Saint, hysbysodd iddynt ei fwriad i geisio profi mai o'r 'Ysgrif' y tarddodd Llyfr Mormon; ac nid oedd neb yno, ïe, hyd y nod yn y fan yr ysgrifenwyd yr 'ysgrif,' unwaith wedi meddwl am y fath ddichell, na sôn fod un tebygolrwydd rhyngddynt: ond yr oedd ei ddyfais ef yn hollol newydd iddynt oll; er hyny boddiodd y mwyrif, pa rai a gyfranasant arian iddo, ac a'i hannogasant ef i fyned at weddw Spaulding, (yn awr Mrs. Davieson,) yr hon oedd yn byw yn Monson, Massachusetts.

Yr oedd y Saint wedi bod yn pregethu ac yn bedyddio llawer oddeutu New Salem, er's amser, ac yn cynnyddu yn wastadol, ac er fod y bugeiliaid pleidiol wedi cynddeiriogi i'w herbyn, o herwydd eu bod yn colli eu deiliaid, ac fod gobaith eu helw yn pallu; er eu bod eisoes wedi manwl chwilio am bob defnyddiau ac ystoriau i geisio eu gwrthwynebu, etto *nid oedd neb o honynt erioed wedi meddwl fod un cyssylltiad na thebygolrwydd rhwng yr 'ysgrif' â Llyfr Mormon*, ac er mai dyna y fan lle y dywedir i'r ysgrif gael ei chyfansoddi. Ond i ddychwelyd at yr hanes.

Wedi i H. gyrhaedd Monson, *rhoddodd Mrs. Davieson yr 'ysgrif' gyfeiriedig yn ei law*,' . . . . yr hyn a wada H. ei hun yn ei draethawd, sef "*Mormonism Unveiled*!' Hysbysodd hi ef hefyd fod cist ganddi yn nhalaeth Caerefrog, yr hon a gynnwysai ysgrifeniadau ereill, pa rai a allasai gael os ewyllysiai. Ar ei ffordd yn ol galwodd H. drwy Palmyra, C. N., (yn agos i gartrefle Joseph Smith pan gafodd yr oraclau), yno casglodd yr oll a allai gael o enwau dynion gelyniaethus i'r Saint, o dan restr o'r cyhuddiadau gwaethaf a allai un mab i Belial ddyfeisio, er ceisio duo cymmeriad J. Smith a'i deulu. Ychwanegodd ati wed'yn lawer o enwau ffugiol, er mwyn rhoi lliw o wirionedd ar ei gelwyddau, canys credai y derbynid hwynt yn well pan wedi eu cefnogi gan D. D's., Revd's, ac A. M's, &c. Dyma darddiad gwreiddiol yr ystoriau 'o fod J. Smith wedi bod yn cloddio yn y ddaear am arian,' ei fod yn 'ffortuneteller,' 'meddwyn,' 'lleidr,' 'teulu anmharchus,' 'digymmeriad,' &c., &c. Ië, dyma'r *gang* ar ba rai y tadogir yr ystoriau gwarthus a gyhoeddir ac a ddarlithir yn ei erbyn drwy'r byd hyd heddyw! Ond ystyria pawb o'u cydnabod fod dryg-air pobl fel hyn yn gymmeradwyaeth i J. Smith, canys profa nad oedd yn cydsynied â'u ffyrdd drygionus ac annuwiol hwynt.

Yn ei ymddyddan â Mrs. Davieson, deallodd H. fod Mr. Spaulding wedi ymfudaw o New Salem i Pittsburgh, yn y fl. 1812, ac oddiyno yn fuan i dref Amity. Pa., a'i fod wedi marw yn 1816. Meddyliodd yr helpiaí hyn y peth yn mlaen yn rhagorol; a chyn gynted ag y dychwelodd i New Salem, annogodd ei gydfradwyr ef i fyned i Pittsburgh i chwilio a adawsai Mr. S. ei ysgrif yn fenthycol yno. Ei unig ddyben yn hyn oedd ceisio gan y cyhoedd gredu mai S. Rigdon oedd awdwr Llyfr Mormon. Ac fel y gwna pob celwyddwr pan fyna ormesu ei gelwydd ar y cyhoedd, felly hwn; canys gwyddai fod Rigdon wedi bod yn Pittsburgh cyn y pryd hwn, ac yna ceisia wneyd allan fod Rigdon wedi gweled ysgrif Mr. S. yno. Wedi hyn dychwelodd H. i Kirtland i chwilio am ychwaneg o ddefnyddiau, ac i gyfansoddi ei lyfr; a thra yma ceisiodd fwrdro Joseph Smith. Ond trwy drugaredd daliwyd ef yn ei ddichell lofruddiog cyn llwyddo, ac wedi arholiad cafwyd ef yn euog o geisio ei ladd, a gorfuwyd ef i roddi meichiau o 500 o ddollars i gadw heddwch. Yma ychwanegodd enwau ei brif gefnogwyr at y rhestr a gafodd yn Palmyra, i dduo cymmeriad J. Smith. Ond cyn hir, dangosodd ei hun yn ei liw priodol, drwy gyflawni ei hen gastiau pechadurus, a gorfuwyd ef i ffoi rhag cyfreithiau y wlad.

Pan welodd ei gefnogwyr mwyaf selog, a'r rhai oeddynt fwyaf awyddus am i'r llyfr ddod i'r maes, fod cymmeriad H. wedi ei andwyo am byth yn ngolwg ei holl gydnabod, annogasant ef i werthu ei ysgrif i ddyn o'r enw E. D. Howe, Painsville, rhag ofn na phrynid ef gan neb a adwaenai H.; ac felly nid yn unig colledid hwy, ond ni chaffent y pleser o erlid ac ymddial ar 'Formoniaeth' a'i blaenoriaid. Prynodd Howe ysgrif Hulbert am 500 dollars; felly daeth y llyfr brwnt a chelwyddog hwnw, sef '*Mormonism Unveiled*,' yn llysfab i'r Howe hwn, yr hwn oedd yn elyniaethus iawn i'r Saint, o herwydd fod ei wraig, a'i chwaer, ac ereill o'i berthynasau, wedi ymuno â'r Saint. Aeth Hulbert gyda'i 'gyflog anghyfiawnder,' ac a brynodd dyddyn yn swydd Erie, Pa.; a phriodododd wraig, ac yn fuan tröodd allan yn feddwyn mwyaf dibarch yn y wlad: gwariodd ei holl eiddo, nes dwyn ei hun yn gardotyn, ïe, a gwaeth na hyny, canys cymmerodd i fyny y grefft o ladrata am ei fywioliaeth; a phan ddaliwyd ef yn lladrata cadwyn

oddiar gymydog, diangodd o'r wlad, rhag cael lletty yn y carchar, a dyna y diweddaf a glywais o'i hanes.

Manylais ar hanes yr Hulbert hwn, fel yr adnabyddo y cyhoedd awdwr, dyfeisiwr cyntaf, a chenedlwr celwyddog y "Spaulding Story" am darddiad Llyfr Mormon. Ac fel y deallo y cyhoedd yn nghylch sail ac awdurdod yr ystori hon, ynghyd â'i hawdwr a'i chefnogwyr, pa rai a alwa pregethwyr, awduron, a darlithwyr, yn "foneddigion parchus." Ystyrid y tystion hyn yn elynion proffesedig, cyflogedig, a digoel, yn mhlith eu cydnabod. Profa hyn fod y rhai a draethant yr ystori ar eu hol o dan arweiniad yr un ysbryd, yn weision i'r un meistr, ac yn yr un gorchwyl â'r rhai sydd yn caru celwydd yn hytrach na'r gwir. Pa ddyn a geir mor dda mewn un wlad, ar na ellir cael digon o'r fath ddynion â'r rhai hyn, i'w cyhuddo o'r cyffelyb bethau ag y cyhuddant hwy Joseph Smith? Yn enwedig pan bregetha 'dysgawdwyr yr oes' hyny, a'u cyflogi hwythau i hyny. Yn mha oes neu wlad y bu na prophwyd nac apostol, ar na chyhuddid hwythau yn gyffelyb gan y cyfryw dystion? Ië, cofier y treial mawr hwnw yn llys yr archoffeiriaid, pan gyflogid y cyfryw dystion yn erbyn ein Hiachawdwr bendigedig, a pha rai, yn ddiau, a gredid mor hawdd gan yr oes hono yn ei erbyn ef, ag y credir y cyhuddiadau hyn yn awr yn erbyn ei weision ef. Cofus genym iddo Ef ddweyd "Gwyn eich byd pan ddywedo pawb yn ddrwg am danoch." Ac amlwg yw nad oedd y rhai hyny yn fwy celwyddog na'r rhai hyn. Ac am y traethawd hwnw, sef '*Mormonism Unveiled*,' yr oedd cymeriadau ei awduron mor warthus, fel na allent werthu nemawr o hono yn y cylchoedd hyny. Ac yn lle fod Howe yn ymgyfoethogi drwyddo, yr oedd yn faich ar ei law, fel na allai ei werthu er ei *huckstera* oddiamgylch am hanner pris. A'r neb a'i darlleno a welant nad oes ynddo sail i'r cyhuddiadau a draetha, ond dychymmygion; "tebygwn," "efallai," "hwyrach," &c. Etto, pan gafodd awduron "crefyddol" y taleithiau dwyreiniol afael yn yr ystoriau hyn, hwy a'u cyhoeddasant ar led, gan sicrhau eu bod yn wirionedd.

GWELER Y PRIF DYSTION HYN YN CROGI EU GILYDD!!

Yn mhlith ereill o'r parchedigion a sicrhaent yr ystori uchod am wir, cyhoeddodd un pregethwr presbyteraidd hi, o'r enw

Mr. Storrs, o Massachusetts; ac fel y gwelir awydd mawr y dynion hyn i daenu celwyddau, dangoswn fel y mae y ddau draethawd hyn yn croes-ddweyd ac yn dinystrio eu gilydd, er y proffesa y ddau roddi yr un hanes, a thystir geirwiredd y ddau gan deitlau uchel!!! Dywed Mr. Storrs, yn yr hyn a broffesa fod yn dystiolaeth Mrs. Davieson, gweddw Spaulding, "fod y sect newydd hon (y Mormoniaid) yn defnyddio Llyfr Mormon yn lle y Beibl." Gwyddai y Parch. hwn yn dda ddigon fod y Saint yn credu y Beibl yn hollol, ac yn profi eu holl athrawiaethau drwyddo, canys clywsai hwynt yn pregethu. Dywed ddarfod i Mr. S. ymfudaw i Pittsburgh, 'dyfod yn adnabyddus â, a dangos ei ysgrif i, Mr. Patterson, Golygydd newyddiadur, yr hwn a'i hoffodd yn fawr, ac a'i benthycodd.' Yn awr, os gwir hyn, paham na chawsent dystiolaeth Mr. P.? Attebwn, mai am y gwyddent na chydsyniai Mr. P. â'u dyfais gelwyddog. O'r ochr arall, ar eirwiredd tystiolaeth Mr. P., mae yr uchod yn gelwydd amlwg.

Cyn gynted ag yr ymddangosodd hyn i'r byd, aeth Mr. J. P. Green at Mr. Patterson, a gofynodd ai gwir oedd hyny?

Attebodd Mr. P. *na chlywsai erioed o'r blaen air o son am y fath beth; na adnabu y fath ddyn â Mr. Spaulding, na'i ysgrif ychwaith!* Craffer ar y dystiolaeth eglur hon etto.

Cyfaddefa Hulbert ei hunan yn ei draethawd, ei fod ef wedi bod gyda Mr. P., a'i fod yn dweyd 'na wyddai ddim am y fath ysgrif ag eiddo Mr. S.' Wele y ddau bartner awdurol ben-ben â'u gilydd yn barod! Etto, dywedir fod Rigdon mewn cyssylltiad ag argraffwasg Mr. Patterson yn Pittsburgh. Ond y gwir yw, na fu Mr. Rigdon erioed mewn un math o gyssylltiad ag argraffwasg, ac achos da paham, o herwydd nad oedd y fath argraffwasg mewn bodolaeth tra y bu Mr. R. yn Pittsburgh.

Yma gwelir fod y Parch. Mr. Storrs wedi bod yn euog o gynllunio a chyhoeddi celwyddau *gwybodus*. Gwnaed a fyno, ni all ei wadu; ac y mae yn rhy amlwg i'w glôg o santeiddrwydd allu cuddio cyrn a charnau yr anghenfil hwn. Etto, dywed, 'Yma cafodd efe (Rigdon) gyfle i ysgrifenu ysgrif Mr. S.' Ni bu Mr. R. yn trigo yn Pittsburgh, ond o'r flwyddyn 1822 hyd 1826, ac am fod iddo ddim a wnelai â Llyfr Mormon, yr ydym yn ei wadu yn bendant; ac ni wyddai air am ei fodoldeb am flynyddau wed'yn, fel y profwn wrth fyned yn mlaen.

Ond yn gyntaf, sylwer fel y croesa yr awduron hyn eu gilydd! Dywed Storrs i Spaulding gyfansoddi ei ysgrif yn New Salem, yn y flwyddyn 1812. Ond mae efe yn cuddio yr amser yr ymsymudodd i Pittsburgh, onide gwyddai y buasai yn tynu i lawr â'r naill law yr hyn a geisiai adeiladu â'r llaw arall. Dywedodd ei bartner, ond yn awr ei wrthwynebydd, sef Hulbert, i weddw Mr. S. ddywedyd wrtho ef, iddynt ymfudo i Pittsburgh yn 1812, ac oddiyno i Amity yn 1814. Ond gwna Storrs fod y weddw yn dweyd fod yr ysgrif wedi dychwelyd i'w hawdwr cyn iddynt ymsymud o Pittsburgh i Amity, a'i bod hithau wedi cadw yr ysgrif yn ofalus. Craffer, pan yr addefid hyn yn wir, eu bod hwy eu hunain yn addef mai yr unig amser ag y gallasai Rigdon gael gafael yn yr ysgrif hono oedd rhwng 1812 a 1814; canys er y *pryd hyny*, addefa y weddw ei bod hi wedi ei chadw yn ofalus yn ei *meddiant ei hun*. Craffer, ganwyd Mr. Rigdon yn 1793, ac felly yn 1812 (sef yr amser ag y dywedir iddo gyfansoddi Llyfr Mormon o'r ysgrif) ni allai fod ond 19eg oed! Ei fam a sicrhaodd i mi (ebe ein tyst), cyn iddynt erioed glywed sôn am Mr. Spaulding, na fu efe erioed o fewn canoed o filldiroedd i Pittsburgh, na nepell oddicartref, ond yn llafurio y ddaear gyda'i rieni hyd nes yr oedd dros 26ain oed!

Dyma'r ddau fradwr yn ymladd â'u gilydd etto, a'r gwir yn dod i'r goleuni!

Ac yn wir, y neb a allo gredu fod bachgenyn diddysg, yr hwn ni wnaethai ond dilyn yr aradr, braidd, wedi cyfansoddi llyfr yn cynnwys dros 600 o dudalenau, ac wedi hyny yn ei guddio yn ddirgel am oddeutu 20 mlynedd, fel na chlywsid un sill ganddo ef na neb arall am dano, meddaf, fe allai yr hwn a gredo fod hyn yn bosibl, gredu hefyd hanes Mahomet am ei saith nefoedd.

Craffer, fod Mrs. Davieson, ar eu haddefiad hwy, 'wedi cadw yr ysgrif o 1814 hyd yr amser ag y cyflwynodd hi i Hulbert,' a chymharer hyny â'r ffaith na fu Mr. Rigdon erioed yn Pittsburgh *cyn* 1822, oddeutu wyth mlynedd wedi i'r ysgrif fod dan glo gan Mrs. Davieson!! Gweler fel y mae y dyfeiswyr diwyd hyn yn dynoethi eu dichell, ac yn crogi eu hunain, a'u gilydd, wrth roddi yr amseryddiad i lawr, yr hyn a wnaent er mwyn rhoddi ymddangosiad geirwirach i'w hystoriau!

Haerant hefyd, fod rhyw wraig wedi dyfod â Llyfr Mormon

i New Salem, ac wedi galw cwrdd cyoeddus i bregethu, ac iddi ddarllen rhanau o hono ar gyhoedd; fod John Spaulding (brawd y diweddar S. Spaulding) yno, a bod ei ofid mor fawr wrth weled y fath ddefnydd yn cael ei wneuthur o ysgrif ei frawd santaidd, nes yr wylodd yn dost. Gwrthwynebwn yr hanes hwn, yn y lle cyntaf, drwy hysbysu na fu un wraig erioed yn pregethu gyda'r Mormoniaid, nac awdurdod gan un fenyw erioed i alw cwrdd; ac ni chlywsom erioed o'r blaen fod un fenyw o'r Saint wedi gwneyd y fath beth! Nid yw y Saint yn credu mewn offeiriadaeth fenywaidd, fel y mae yn hysbys i bawb a wyddant rywbeth am danynt.

Yn nesaf, yr oeddwn i *fy hun* yn byw yn New Salem *ar yr amser* ag y cyfeirir ato, a thystiaf *na chynnaliwyd y fath gwrdd, na dim yn debyg.*

Etto, nid oedd neb o'r enw John Spaulding yn byw yno, nac yn y dalaeth hono ychwaith; ac felly, oddiar sail anwadadwy, tystiaf mai anwireddau yw pob sill o'r haeriadau yna hefyd, wedi eu cynllunio yn bwrpasol i dwyllo, ac nis gallant hwy fy ngwrthbrofi, canys herriaf hwynt i ddwyn eu prawf.

Wele yr holl *fabric* yn garnedd yn awr, a'i dyfeiswyr yn nghladd ynddi, a'r Peirch, Harries, Rowlands, & Co., yn eu gŵnau duon yn galaru uwch beddrod eu hanwyl Jesebel, Mrs. "Spalding Romance!" Och o'u hanffawd! beth a ddaw o honynt?

Gorchwyl gwael oedd i'r Parch. Mr. Spaulding, yr hwn a broffesai fod yn was i Dduw, gyfansoddi *Romance* (sef celwyddau ffugiol), i'w gormesu ar y cyhoedd am wir, ac yr oedd yn gynnysgaeth wael i adael ar ei ol er cynnal ei deulu! . . .

Cymharer hyn â'r hyn a ddywed Hulbert ei hun, sef, 'A'r ffaith hefyd fod Solomon Spaulding yn tueddu at atheistiaeth cyn ei ddiwedd, fel y profa llythyr sydd yn awr yn fy meddiant o'i waith ei hun."

Felly yma etto gwelir Hulbert a John Spaulding yn croesi eu gilydd yn y Sanhedrim Revrendaidd hon, a thrwy hyny yn profi gweision i bwy ydynt, canys gweithredoedd 'tad y celwydd' a wnant.

Cofier ddarfod i Hulbert gael ysgrif Spaulding gan ei weddw ef ebe hi yn yr hyn a ganlyn, dan addaw y cyhoeddai efe hi, ac y caffai hithau ran o'r elw, a dyma'r diweddaf a glybuwyd o'i

llanes. Pa le y mae yr ysgrif wreiddiol yn awr? Atebed Hulbert. Paham na ddwg efe hi i'r amlwg, pan y gwrthbrofir ei holl ddichellion mor amlwg o'i heisieu?

Paham na chyhoeddasid yr ysgrif wreiddiol, fel y gallai y cyhoedd ei chymharu â Llyfr Mormon drostynt eu hunain, a gweled a oeddynt yn tebygoli? Nid gwiw iddynt ddweyd nad allant wneyd hyn, pan y profa Mrs. Davieson ddarfod iddi ei rhoddi i Hulbert yn ei law ei hun.

Rhodded ein darllenwyr eu rhesymau ar waith, i ystyried *paham y dystawriwydd hwn, a chuddiad yr ysgrif hono* ei hun. Ac yna gweler fod hyn yn ddigon i *stampio y celwydd* ar wyneb yr holl ddyfais o ben bwy gilydd!

Nid all yr H. hwn, y Storrs, na neb o'u cefnogwyr, esgusodi eu hunain rhag ei chyhoeddi, drwy haeru nad yw yn werth eu sylw, canys profa eu hymdrechiadau mawrion eisoes, y traethodau a gyhoeddasant, y darlithio a'r dyfynu i'r newyddiaduron, eu bod hwy eu hunain yn ystyried y peth o hwys mawr!

Wel, paham na chyhoeddant yr ysgrif sydd yn eu dwylaw yntc, yr hon a brofai yn fwy effeithiol a rhwydd na dim arall, mai dyna darddiad Llyfr Mormon, os gwir yw yr hyn a ddywedant hwy?

Atebwn drostynt yr unig atebiad a allant roddi, sef, pe cyhoeddent yr ysgrif, amlygid eu celwyddau hwy mor amlwg â'r haul ganol dydd, ac etto mae eu gwrthodiad i'w chyhoeddi yn profi yr un peth mor amlwg!

Ai tybied y dyoddefa yr holl Reverendiaid duwiolfrydig, a'r gwladgarwyr selog a geirwir, ag sydd wedi bod mor ddiwyd i ddyfeisio a lledaenu yr ystori hon dros y wlad, i'r Mormoniaid, a'r cyhoedd, alw arnynt yn ofer i ddwyn yr ysgrif hono i'r amlwg, a hwythau yn sefyll o flaen brawdlys y gwirionedd, fel *culprits* crynedig o flaen y *bar*, hyd nes y delo? Yn awr Mr. Harries, ai mud a fyddwch i'r her hon? Beth meddwch Mr. Rowlands, ai gwaeddi "megys yr oedd offeiriaid yn daenwyr chwedlau yn y dechreuad, felly y parhant yn oes oesoedd, Amen," a wnewch wrth hyn? Ceir gweled cyn hir! Dyma eu hunig amddiffynfa bellach; ac ni wnant hyn ychwaith, canys byddai hyny yn gyfystyr â galw eu celwyddau yn ol. Ac etto, meddwn, ai tybied na wna y dynion hyn, y rhai sydd yn proffesu cymmaint o gariad at eu cyd-ddynion, ac o awydd i'w

didwyllo drwy iddynt gael y gwir, a'r rhai a wnaethant gymmaint eisoes gyda'r ystori hon,—oni wnant ei gorphen, tybied, drwy gyhoeddi yr ysgrif hono sydd yn ddiffygiol, er gwizio eu haeriadau blaenorol, pan y maent yn gwybod fod llawer o filoedd o bobl yn credu geirwiredd y Llyfr a alwant hwy yn *Romance* celwyddog, a thrwy hyny yn peryglu eu heneidiau! Beth! gan eu bod yn ei charu mor fawr, a'u bod wedi cael eu herrio i amlygu yr ysgrif wreiddiol, yr hon y cyfaddefa eu tyst pwysicaf sydd yn eu meddiant; paham na anfonant at y lliaws tadau, tadau bedydd a theidiau duwiol (?) a fedd yr erthygl hwn yn America i'w amlygu i'r byd, fel yr atebo drosto ei hun? Dyna feiddiad teg,—gwreiddyn y ddadl—y cnewyllyn o'r peth; allan ag ef ar gyhoedd y byd, ac nid ofnwn y canlyniad! A fyddant hwy yn ddystaw er eu holl ymffrost o sel, ac ewyllys da, a chariad, &c., fel na ddidwyllant y cyhoedd am beth mor bwysig, pan y mae, (os gwir eu hanes ar eu haddefiad) mor hawdd iddynt wneyd hyny drwy'r ysgrif hono?

Beth meddych, ddarllenydd, am haid o ddynion a waeddant (am lyfr a greda cynnifer yn ddwyfol), eu bod hwy yn gwybod mai ffug yw, ag a gyhoeddwyd gan ddyn er mwyn cael arian i'w deulu, a'u bod hwy yn feddiannol ar yr 'ysgrif' *a brofa hyny*, ac er hyny oll yn gwrthod amlygu yr ysgrif hono ar un ammodau?

Onid ydynt yn sefyll yn hunan-gondemnedig o flaen cydwybod pob dyn meddylgar am esgeulusdod mawr o'u dyledswyddau, neu am gynllunio dyfais ddrwg fel hyn yn bwrpasol i dwyllo eu cyd-ddynion, ac i'w rhwystro i chwilio i'r gwir?—O'r ddau ganlyniad, rhaid fod un yn wir, ac nid oes ammheuaeth weithian pa un, debygwn, yn enwedig pan gofir dichellrwydd a diwydrwydd mawr y bobl hyn i rwystro lledaeniad y gwirionedd, er mwyn sicrhau eu gobaith am elw.

Ergyd farwol yw y llythyr a ganlyn i'r traethawd a elwir yn *Origin of Mormonism* (dechreuad Mormoniaeth), yr hwn lythyr a ardystir gan Matilda Davieson ei hun, a'r hwn a brofa y llyfr uchod o waith y Parch. Storrs, o Holliston, neu D. Austin, neu y ddau, yn *forgery* cywilyddus, oddiar genfigen, o herwydd fod eu haelodau, ac un o'u diaconiaid, wedi ymuno â'r Saint: ac fel hyn ceisient ddal eu gafael ar y gweddill rhag eu dilyn hwynt.

GWRAIG A *MERCH* SPAULDING YN PROFI NAD O'I *YSGRIF* EF Y GWNAED *LLYFR MORMON!!!*

"DICHELL GYFRWYS WEDI CAEL EI DYNOETHI."

(Dyfyniad allan o Newyddiadur Americanaidd o'r enw "Quincy Whig."

"Cofus i ysgrif ymddangos yn ddiweddar mewn amryw o Newyddiaduron yn proffesu rhoddi hanes tarddiad Llyfr Mormon, [sef yr ysgrif dan sylw]. Pa faint a atebodd yr ysgrif o ddybenion ei hawdwr, na pha beth oedd ei ddybenion, nid ymholaf yn awr, ond cyflwynaf yr ochr arall o'r hanes ger gwydd drwy y llythyr canlynol, fel y gallueger y cyhoedd i'w farnu ef yn ol yr ysgrif ei hun.

"Copy o lythyr o eiddo Mr. John Haven, o Holliston, Mass., at ei ferch, Mrs. Elizabeth Haven, o dref Quincy, Ills.

"Galwodd eich brawd Jesse drwy Monson [lle y triga Mrs. Davieson, gweddw Spaulding], yn mha le y cafodd gwmni Mrs. Davieson, ei mherch, Mrs. M. Kinestry, a Dr. Ely, am amryw oriau; ac yn y cyfamser gofynodd iddi y cwestiynau canlynol; a chafodd yr atebion canlynol *yn ngwydd Dr. Ely*, a gwaded Dr. Ely hwy os gall, mor agosed ag y gallaf gofio gair am air, sef,—

Cwest. A ysgrifenasoch chwi, Mrs. Davieson, lythyr at Mr. Storrs, yn cynnwys hanes tarddiad Mormoniaeth.

Ateb. Naddo ddim, ac ni welais y llythyr hyd nes y darllenais ef yn y Newyddiadur a elwir *Boston Recorder*, a'm henw innau wrtho. Ni ddygwyd y llythr ataf fi i'w ardystio.

Cwest. Pa beth a fu i chwi wneuthur â'r llythyr hwnw?

Ateb. Daeth Dr. R. Austin i'm tŷ, a gofynodd ryw *ychydig o gwestiynau*, ac ysgrifenodd ryw bethau ar y pryd.

Cwest. A ydyw yr hyn a gynnwysai y llythyr hwnw yn wirionedd?

Ateb. Y mae *rhai pethau* fel yr atebais ef.

Cwest. A ddarllenasoch chwi Lyfr Mormon?

Ateb. Darllenais *ryw ychydig o hono!*

Cwest. A oes tebygolrwydd rhwng ysgrif Mr. Spaulding â Llyfr Mormon?

Ateb. *Nac oes*, oddieithr fod *rhai* enwau ynddynt yn go debyg i'w gilydd.

Cwest. A ddesgrifiai yr ysgrif bobl eulunaddolgar, ynte crefyddol?

Ateb. Eulunaddolgar.

Cwest. Pa le mae yr ysgrif?

Ateb. Daeth P. Hulbert yma, ac a'i cymmerodd ymaith, gan addaw ei chyhoeddi, ac y caffwn innau hanner yr elw.

Cwest. A gyhoeddodd Hulbert yr ysgrif?

Ateb. Naddo! ond hysbysodd fi trwy lythyr nad oedd yr ysgrif erbyn ei chwilio, yn darllen fel y dysgwylient, ac na chyhoeddent mo hono.

Cwest. Beth yw maint yr ysgrif?

Ateb. Tua y drydedd ran o Lyfr Mormon.

Cwest. i Mrs. Kinestry. Beth oedd eich oedran chwi pan ysgrifenodd eich tad yr ysgrif?

Ateb. Tua phump mlwydd oed.

Cwest. A darllenasoch yr ysgrif?

Ateb. Pan oeddwn tua 12 mlwydd oed arferwn ddarllen rhanau o honi er difyrwch.

Cwest. A ddesgrifiai yr ysgrif bobl grefyddol ynte pobl eulunaddolgar?

Ateb. Pobl eulunaddolgar.

Cwest. Ydych chwi yn meddwl fod *rhyw debygolrwydd* rhwng yr ysgrif â Llyfr Mormon?

Ateb. Gall fod *rhai o'r enwau* yn lled debyg.

Cwest. A ydych chwi yn *sicr* fod cymmaint ag un o'r enwau yr un peth?

Ateb. NAC YDWYF?

Cwest. A ddarllenasom chwi gymmaint â gair o Lyfr Mormon erioed?

Ateb. *Naddo ddim gair*!

Cwest. A roisoch chwi ganiatâd i'ch enw fod wrth ysgrif Mr. Storrs yn y *Boston Recorder*?

Ateb. *Naddo*; ni feddyliais i'm henw i ymddangos dan y fath beth. Drwg iawn genyf oedd ei weled yno.

"Gwelir oddiwrth yr uchod, fod Mr. Austin yn ei fawr sêl i ddystrywio Llyfr Mormon, ac i ddangos ei gas at y Saint, wedi gofyn ychydig gwestiynau i Mrs. Davieson, er mwyn cael

rhyw achlysur i ysgrifenu ei feddwl ei hun at Mr. Storrs yn ei henw hi. Mae Mrs. Davieson tua 70 mlwydd oed yn awr, ac yn heneiddio yn gyflym."

Dyna a ddywed gweddw Spaulding a'i mherch dealler, er yr holl fwstwr a wneir am danynt a'u '*stori*!' Gwelir yn eglur ei bod yn hollol groes i ystoriau holl Beirch y byd! Cymmodant â'u gilydd cyn dyfod allan etto. Ond y mae gweddw Spaulding a'i mherch cofier, gyda ni, ac yn profi yn eglur nad o'r 'Ysgrif' y gwnaed Llyfr Mormon; eithr y 'Peirch' a ffugiasant ei henw hi a'i mherch sydd yn ceisio profi hyny; ond wele y gwarth i'w gwynebau hwy eu hunain yn awr, a'r gwir yn dod i'r amlwg!

Yn awr, onid oedd yn raid fod eu hachos yn ddrwg pan y *forgient* enwau y ddwy wraig hyn er ei gynnal? A phrofi y *forgery* hwn yw chilfriwio eu holl *fabric*, canys dyma oedd ei sylfaen. Nid oedd neb o'r bobl uchod yn Saint; a gwelir fod awydd Mrs. M. Kinestry yn ceisio awgrymu fod hyd y nod rai o'r enwau yn lled debyg, pan yr addefa na ddarllenodd air yn Llyfr Mormon, yn profi ei bod hithau yn gwneyd ei gwaethaf yn erbyn y llyfr hwnw!

Ac ai tybied y buasai un dyn yn ddigon call i gyfansoddi Llyfr Mormon o ryw ysgrif fach felly, ai wneyd yn gyfryw ag nad allodd holl ddoethineb doethion yr oes gael ynddo ef ei hun wrthbrofion, heb ddyfeisio celwyddau wedi eu sylfaenu ar *forgery*,—yn ddigon call, meddwn, i wneyd hyn oll, ac etto yn ddigon ffol i beidio cyfnewid yr enwau a fuasai yn yr 'Ysgrif?' Rheswm! rheswm bellach!

Heblaw hyny, pe gallasai S. Rigdon gyfansoddi y rhan grefyddol o hono, paham na allasai gyfansoddi y rhan arall hefyd heb weled ysgrif Spaulding, pan mai un fach oedd hono hefyd? Ac yn mhellach etto, gwel y neb a ddarlleno Lyfr Mormon, fod y rhan hanesyddol a'r rhan grefyddol o hono (fel eu galwant), wedi eu cyd-blethu â'u gilydd, fel nad yw yn bosibl idd eu gwahanu.

Sylwer hefyd fod Storrs yn gwneyd fod Mrs. Davieson wedi dweyd fod yr 'ysgrif' wedi colli. Ac yma dywed hithau ei hun ei bod hi 'wedi ei chyflwyno i law Hulbert, ac iddo yntau addaw ei chyhoeddi.' Gweler dichell Hulbert a'i gefnogwyr yn cuddio eu gwir ddyben o ymofyn yr 'Ysgrif,' rhag Mrs.

Davieson, gan ddyfeisio celwydd etto yn esgus, sef eu bod ar fedr ei chyhoeddi, ac y caffai hithau hanner yr elw! Syndod y fath dusw o anwireddau croeshaeriadol a ddywedodd y bobl hyn yn *wirfoddol* ac yn *wybodus*, i dwyllo y cyhoedd mewn gwaed oer!! Rhyfeddwn fawr amynedd yn goddef y fath anghyfiawnder! Etto y mae eu hynfydrwydd wedi dod yn amlwg i bawb a'i darlleno. Ac ai tybied y llafuriasent mor egniol i wrthwynebu Llyfr Mormon oddieithr ei fod o ddwyfol darddiad, ac yn wirionedd? O, na, teyrnas wedi ymranu yn ei herbyn ei hun, ni saif hono.

Meddyliwn fod y ddichell ddofn o'r "*Spaulding Romance*," i geisio dangos tarddiad Llyfr Mormon, wedi ei dirdynu yn hollol, a'i gwrthbrofi yn ddealladwy i bob un a ddewiso ddeall, fel nad oes gysgod o wirionedd ynddi.

Etto gan fod cymmaint o ddefnydd yn cael ei wneyd o honi gan awduron a darlithwyr, hyd y nod yn ein gwlad ni, ychwanegwn dystiolaeth P. P. Pratt, yr hon a gyhoeddodd yn New York mewn atebiad i ddyn o'r enw L. R. Sunderland, *a'r hyn a brofa tu hwnt i bob dadl, na wyddai S. Rigdon ddim am, na chlywsai air o sôn am Lyfr Mormon, nes yn mhen cryn amser wedi iddo gael ei gyhoeddi i'r byd!!* Ac na wyddai ddim o barthed i'r Ysgrif gyfeiriedig, hyd nes i'r Hulbert hwn gyhoeddi yr anwiredd hwn arno ef. Wedi traethu ei adnabyddiaeth o Rigdon am flynyddau, pan oeddynt ill dau yn bregethwyr gyda y Bedyddwyr, a'u hymneillduaeth dan yr enw "*Dyseyblion*," neu y rhai a elwir "Campbelliaid," dengys yr hanesydd y dull, a'r amser ag y clywodd efe ei hun sôn gyntaf am "Formoniaeth," fel y canlyn:—"Yn Awst 1830, pan ar fy nhaith yn swydd Ontario, talaeth N. Y., yn pregethu, y daethym i'r adnabyddiaeth gyntaf â Llyfr Mormon. Yr oedd y pryd hyny wedi ei gyhoeddi i'r byd er ys dros *hanner blwyddyn*, ac wedi ennill tua 50 o grediuwyr ynddo; a dyma'r unig "Saint y Dyddiau Diweddaf" oedd yn y byd yr amser hwnw. Yr oedd genyf ragfarn gref iawn yn erbyn Llyfr Mormon ar y dechreu, ac hyd nes cofio cynghor Paul, "Profwch bob peth, a deliwch yr hyn sydd dda." Wedi eistedd i lawr a'i ddarllen yn fanwl a'i gymharu â'r ysgrythyrau santaidd, myfi a weddiais yn ddyfal ar Dduw am iddo mewn rhyw fodd hysbysu i mi ai gwir oedd; ac nid hir y bu'm cyn i'r Arglwydd o'i râs roddi i mi *dystiolaeth*

o'i eirwiredd drwy ei Ysbryd Glân. A pheth oeddwn i i wrthsefyll Duw? Yn fuan ufyddheais i ordinhadau yr efengyl, a galwyd fi i'r weinidogaeth drwy ddadguddiad ac arddodiad dwylaw gweision Duw, ac yn ganlynol aethym oddiamgylch gan bregethu yr efengyl.

Wedi cyrhaedd swydd Ontario N. Y., yn ol, gwelais Joseph Smith am y tro cyntaf erioed. Oddeutu y 15fed o Hydref, 1830, cychwynais gyda O. Cowdry a P. Whitmer tua thalaeth Ohio. Galwasom i weled S. Rigdon, a'r pryd hyn am y *tro cyntaf y gwelodd efe Lyfr Mormon*, a myfl a gefais y pleser o'i roddi gyntaf yn ei law! Synodd yn fawr pan y cynnygais ef iddo, gan hysbysu beth oedd; ac nid heb berswadio taer arno, ac ymresymu llawer gydag ef, y llwyddais i gael gan Mr. Rigdon i gydio yn Llyfr Mormon na'i ddarllen; ystyriai yn beth rhy anhygoel yn ei olwg ef fod y fath beth â Llyfr dwyfol i ddod i'r amlwg! Bu ymdrechion mawr cyn y gallasai gredu ei gynnwysiad yn llwyr. A phan o'r diwedd yr argyhoeddwyd ef o'i eirwiredd, galwodd ei holl berthynasau, ei gydnabod, a'i gynnulleidfa, a daeth tyrfa fawr ynghyd. Anerchodd hwynt yn sobr iawn am tua dwý awr ar y mater hwn, ac yr oedd y gynnulleidfa gan mwyaf yn wylo yr holl amser, dan bwys ei apeliadau a'i resymau Gofynodd faddeuant pawb y gallasai ei ymymddygiad neu ei ddysgeidiaeth flaenorol fod we i bod yn rhwystr iddynt, canys yr oedd o'r blaen yn gydwybodol yn eu dysgu yn ol y goleuni a feddai; hysbysodd ei benderfyniad i ufyddhau i'r efengyl; a'r boreu dranoeth bedyddiwyd ef a'i wraig gan Mr. O. Cowdry. Yr oeddwn yn bresennol, ac yr oedd yr olygfa yn sobr a mawreddog; lluoedd o edrychwyr gan mwyaf dan ddylanwad neillduol; bedyddiwyd amryw ereill ar y pryd hyny, ac ar ol hyny, hyd nes yn ystod y gauaf hwnw a'r gwanwyn canlynol, yr oedd rhifedi y Saint wedi cynnyddu i *dros fil*; yr Arglwydd yn cyfranu yr Ysbryd Glân yn ei nerthol weithrediadau ar y Saint, a gair yr Arglwydd a gynnyddodd fwy fwy, a llawer o bregethwyr a ufyddhasant i'r efengyl.

Yn gynnar yn y flwyddyn 1831, Mr Rigdon, wedi cael ei ordeinio genym ni, a ymwelodd â'r brawd Joseph Smith *am y tro cyntaf iddo* ei weled erioed.

Yn fuan wedi hyn dechreuodd ein gelynion geisio dweyd mai S, Rigdon a wnaeth Lyfr Mormon. Etto nid oedd neb o honynt

wedi dychymygu un gair am y "*Spaulding Romance*" y pryd hyn. nac ychwaith am flynyddau wedi hyn, hyd oni chyhoeddodd Hulbert ei *forgery* ddichellgar yn y "*Mormonism Unveiled.*" Yn y talcithian gorllewinol ufyddhaodd cymmydogaethau cyfain, braidd, i'r athrawiaeth, wedi i'r "*Spaulding Romance*" gael ei chyhoeddi yn eu plith; ac yn wir nid ystyriasom hi yn deilwng o wrthwynebiad, hyd nes wedi i awduron crefyddol a phregthwyr y dref hon (New York) ei chyhoeddi gan sicrhau ei bod yn wirionedd.

Yn awr, tystiaf yn ddifrifol fod y rhai a luniasant y "Spaulding Story" (am Mr. Rigdon, &c..) yn gyffelyb gau-dystion i'r rhai hyny a gyhuddent y dyscyblion o ladrata corff Crist o'r bedd Dyma yn fyr yw hanes y "*Spaulding Story.*" Diau fod llawer wedi ei chymmeryd hi yn esgus rhag credu ac ufyddhau i'r gwirionedd, ond ni rwystrodd hi neb gonest eu calon, ac awyddus am y gwirioned'l, i ddderbyn y genadwri ddwyfol a grasol a ddanfonodd Duw i'r byd. Canys gwna y cyfryw ymchwilio i'r peth a'i brofi, yn hytrach na dilyn ystoriau gelynion proffesedig y gwirionedd.

Tystiaf yn ddifrifol fy mod i yn gwybod fod Llyfr Mormon yn wirionedd dwyfol, ac wedi cael ei amlygu trwy allu Duw. Ac er gwaethaf holl ddichellion a chamgyhuddiadau y diafol a'i hoil weision. ni syflant byth ei seiliau. Ni allant byth wrthbrofi ei dystiolaeth, ond efe a dreigla yn mlaen yn gyflymach po fwyaf ei gwrthwynebir. ac efe a faluria ei holl wrthwynebwyr fel mân lwch y clorianau." "P. P. PRATT."

Ni raid ond ystyried rhagoroldeb tystiolaeth tyst fel hwn ar ystoriau a dychymmygion gelynion proffesedig, o genfigen, er profi gwirionedd y Llyfr hwnw i bob dyn rhesymol. Mae hwn yn *dyst*.—mae ei dystiolaeth yn sylfaenedig ar *wybodaeth*, ac nid fel y llell ar *ystoriau* y newyddiaduron; a phe yr adnabyddai y cyhoedd y tyst hwn gystal ag yr adwaenom ni ef, a phe buasent wedi deall pa faint a ddyoddefodd er mwyn ei dystiolaeth hon, nid ammheuid gair a ddywed byth am hyn.

Gan yr hòna y "*Spaulding Story*" mai Mr. Rigdon a gyfansoddodd Lyfr Mormon, dyfynwn yn nesaf Lythyr o eiddo Mr. Rigdon ei hun, yr hwn a ysgrifenodd at Olygyddion newyddiadur, y rhai a gyhoeddodd y "*Spaulding Story*," yr hon dystiolaeth sydd yn aros yn anatebadwy hyd heddyw.

"Meistri Bartlett a Sullivan,—Yn eich cyhoeddiad dyddiedig y 18fed, gwelais lythyr wedi ei arwyddo gan ryw un a eilw ei hun yn Matilda Davieson, yn proffesu rhoi hanes tarddiad Llyfr Mormon, drwy ddweyd ryw *moonshine story* am ryw Solomon Spaulding, yr hwn ni chlywswn erioed air am ei fodoldeb hyd oni ddarllenais y Llyfr uchod, a'r hyn a ddywed *D. P. Hulbert* am dano; a'r hyn a ddeallaf yn awr am ei gymmeriad yw, yr hyn a gasglaf oeddiwrth waith ei wraig yn dwyn fy enw i o flaen y cyhoedd, i geisio profi fy mod i yn gwybod am yr hyn ni wybum erioed, sef, ac ar dystiolaeth ei wraig ei hun, ysgrif gelwyddog ei gwr; canys addefa fod ei 'gwr duwiol' yn ei fywyd wedi ysgrifenu *Romance* (celwyddau) er mwyn elw! I'a faint o gelwyddau a bregethasai yn ei fywyd am arian nid hysbysa, ond hawdd barnu na buasai yr hwn a wnaethai y naill lâwer rhy dda i wneyd y llall. Gan mai hyn yw yr unig hanes sydd genyf fi am y fath ddyn a'r Parch. S. Spaulding, nid oes genyf ond tyb wael am ei foneddigeiddrwydd, ei ysgolheigdod, na'i dduwioldeb, canys pe meddasai y naill neu y llall, dylasai ddysgu ei wraig i beidio dweyd celwyddau, na chyssylltu ei hun â chelwyddwyr, godinebwyr, a'r gwaethaf o ddynion.

"Am yr ystori hirfaith ac afluniaidd a ddywed, fod Ysgrif Spaulding wedi bod yn llaw Mr. Patterson, o Pittsburgh, yr hwn oedd yn meddu argraff wasg yno, a'm bod innau wedi dweyd fy mod mewn cyssylltiad â'r fath swyddfa. &c., &c., anghenrheidiol yn unig yw eich hysbysu, mai anwireddau dychymmygol ydynt bob gair, heb gymmaint a chysgod o wirioneedd yn un o honynt

"Nid oedd yn Pittsburgh yr un dyn o'r enw Patterson ag a wnelai ddim ag argraffwasg tra y bu'm i yno. Clywais fod un o'r enw wedi bod yno, ac wedi bod yn anffortunus, a thorri i fyny flynyddau cyn i mi erioed fyned yno. Eithr pe dywedwn ddarfod i mi erioed glywed gair o sôn am y fath ddyn a Solomon Spaulding, na'i wraig obeithiol, cyn i Hulbert gyhoeddi yr ystori uchod arnaf, byddwn yn gelwyddwr fel y maent hwythau. Os gwir a ddywedant, paham na chawsent dystiolaeth Mr. Patterson i'w sicrhau, gan y byddai efe yn benaf a allasent gael i hyny? Ac y mae absennoldeb ei dystiolaeth ef yn dangos nad oes sail i'r *fabric*. Yr achos oedd am fod Mr. Patterson yn ddyn rhy eirwir a da, i fod yn offeryn i daenu y

y fath gelwyddau; a phe gelwid arno, tystiai Mr. Patterson mai gwirionedd yr wyf yn ddweyd am hyn.

"Yn nesaf, foneddigion, caniatewch i mi roi i chwi hanes y Dr. Hulbert hwn (fel ei gelwir, nid am ei fod yn Physygwr, ond cafodd y teitl o Dr. o herwydd ei fod yn seithfed fab) a'i gefnogwyr a fuant yn cynllunio ac yn lledaenu y cruglwyth gwarthus hwn o gelwyddau; o herwydd pe gwybuasech chwi gymmaint am gymmeriad yr Hulbert hwn ag a wn i, nid wyf yn meddwl yr ystaeniasech byth mo eich colofnau drwy gyhoeddi dim o'i waith. [Yna dyry ein tyst hanes ymddygiad gwarthus y dyn hwn, yn gyffelyb i'r hanes dechreuol a roisom, ynghyd a hanes ychwanegol, am fel y darfu rhai o'i gefnogwyr gael eu dala yn y gwely gan H. ei hun gyda ei wraig, drwy yr hyn cafodd efe ganddynt er mwyn heddwch, gant o ddollars, ac ian o ychain, a gwnaed heddwch fel hyn rhwng awduron y Llyfr hwnw a elwir '*Mormonism Unveiled*,' canys yr oedd yn lles i H. befyd wrth gwrs fod i'r llyfr hwnw ddod allan, canys ar yr ammodau hyny y gwerthasai ei hawl ynddo i Howe, yna ebe ein hanesydd,] cymmerodd H. ei wraig ac a aeth i barth arall i fyw, gan adael yr hen ddiacon Clap, ei feibion, Mr. Bentley, Howe and Co., i ddyoddef y gwarth o geisio cynllunio celwyddau yn fradwrus i dduo cymmeriadau y dynion hyny a ofnent wynebu mewn ymresymiad.

"Cenedlwyd yr ystori sydd yn eich cyhoeddiad gan y blaid hon, cyn iddynt ymddattod oddiwrth eu gilydd. Pa beth ond celwyddau a ellir ddysgwyl gan y fath bobl â rhai'n? Mae yn llawenydd nid bychan genyf fi, i weled nad oes gan fy ngelynion well arfau i ymladd i'm herbyn, nac yn erbyn y grefydd a gofleidiaf, na chelwyddau; canys pe gallasent gael gwell diau y defnyddiasent y rhai hyny. Etto rhaid addef fod gradd o gyssondeb yn ein herlidwyr yn hyn, canys, gan na wna gwirionedd ddystrywio gwirionedd, ofer fyddai i'n herlidwyr dwyn gwirionedd i'n herbyn, o herwydd ein hadeiladu a wnai hyny; ymddangosant yn wybodus o hyn, pan y crafangant yr unig offeryn a allant gael, set celwyddau. Dyma yr unig offeryn a ddygwyd erioed yn erbyn y gwirionedd.

"Er rhoi ymddangosiad deniadol a theg ar eu hystoriau, gwnegant hwynt â llawer o ffug santeiddrwydd a chrefyddolrwydd; canys gwyr pawb y derbynir celwydd ffug-grefyddol yn barot-

ach gan lawer na chelwydd o ymddangosiad arall; ac felly y daw celwyddau y rhai hyn wedi eu harwyddo gan 'weddw ddiwiol i bregethwr duwiol.' Etto ymddengys mai y mwyaf nodedig o'i holl weithredoedd 'duwiol' oedd ysgrifenu cruglwyth o gelwyddau, er mwyn elw, yn ol eu haddefiad eu hunain: ond meddyliant fod ei ddiwioldeb rhyfeddol ef yn ei santeiddio hwynt am wirioneddau, tybir fod celwyddau yn troi yn wir dan anadl rhai mor dra santaidd, yn enwedig pan wedi eu haddurno gyda theitlau '*Reverendiaid*,' &c. Ond y mae'r amser tywyll hwnw wedi myned hebio gyda dynion rhesymol, pan y gloywid celwyddau noeth, ac eu trwsid gan ffug-grefydd a rhith santeiddrwydd. Gwyr y cyhoedd yn dda drwy brofiad, nad yw y rhai sy'n hôni y teitl o Revd. yn anffaeledig, ond fod llawer o honynt yn meddwl y cuddia y gochl hon eu celwyddau hwy rhag y gwarth a deilyngant.

"Yr unig achos yr ymosoda fy erlidwyr arnaf â chelwyddau yw, o herwydd na feiddiant fy ngwynebu mewn rhesymeg, am eu bod yn gwybod pe gwnaent hyny y collent eu pwnc; yna ceisiant rwystro y werin rhag ymchwilio i'n hathrawiaeth, trwy gyhoeddi celwyddau. Ystyriaf hyn yn ganmoliaeth fawr i mi ac i'r athrawiaeth a broffesaf."

"Ydwyf, yr eiddoch yn barchus.

S. RIGDON."

Mae yn hysbys i'r cyhoedd weithian fod i'r awduron a'r Peirch Americanaidd ag y buom yn sôn am danynt, frodyr undad yn Lloegr, ac ysywaeth yn nes atom etto. ïe. yn Nghymru; ac fe'u hadnabyddir yn eglur ar eu gwaith yn defnyddio yr un arfau yn erbyn yr un gwirioneddau dwyfol yn gyffelyb. Rhoddwn enghraifft o'u gwaith yn Lloegr yn ddiweddarach, er esiampl o'u hawydd mawr i wrthwynebu y gwirionedd, fel y croesant eu gilydd yma fyth. Ac er dangos i rai o'r Cymry a rodiant yr un llwybrau, yr arwydda cwymp yr holl rai hyny mewn gwarth i'r ffos a gloddiasant i'r dieuog. mai cyffelyb yn ddiau fydd eu tynghed hwythau. Gwirionedd yn unig a ddeil ei brofi yn drwyadl.

Dyfynwn yr hyn a ganlyn o adolygiad Mr. John Taylor ar waith y Parch. Mr. Heys, gweinidog Wesleyaidd, yn erbyn Llyfr Mormon, yn yr hwn y ceisia ddangos tarddiad y llyfr

hwnw. Cymharer yn deg wyneb yn wyneb hanes ei frawd Parchedig Mr. Livesey, am yr un peth:—

"Dywed Mr. Heys mai Joseph Smith yw awdwr Llyfr Mormon. Dywed Mr. Livesey mai S. Spaulding yw ei awdwr. Dyma ddau haeriad mor groes anghydmodol a'u gilydd ag a fyddai haeru mai yr un dyn yw Mr. Heys a Mr. Livesey. Hadra y naill mai Martin Harris ac O. Cowdery a'u hysgrifenasant o enau Joseph Smith, tra yr oedd efe yn syllu ar garreg a ddaliai yn ei het Sicrha y llall mai S. Rigdon a'i hysgrifenodd gan gyfnewid ysgrif rhyw S. Spaulding. Gwiria y naill iddo gael ei ysgrifenu yn swydd Susquehana, a chan M. Harris ac O. Cowdery. Gwiria y llall mor gadarn mai yn Conneaut, talaeth Ohio, yr ysgrifenwyd ef, ac wedy'n haera mai yn Pittsburgh, Pa., yr ysgrifenwyd ef. Mae pob un o'r manau uchod gannoedd lawer o filldiroedd oddiwrth eu gilydd; ac y mae yn anmhosibl i fwy nag un o'u haeriadau fod yn wir. Cymmaint a hyna er dangos anghyssondeb tystiolaethau y Peirch', pa rai a gynnygir am ffeithiau yn erbyn Llyfr Mormon!

Enghraifft arall o gelwyddau y Peirch a welir yn yr hyn a ganlyn:—Haera tri o honynt yn y '*Mormonism Unveiled*,' sef y Parch. John Spaulding, Parch. John Miller, Parch. O. Smith, ac ereill o'r un chwaeth 'dduwiolfrydig' eu bod hwy wedi bod yn gwrando am oriau bwygilydd ar Mr. S. Spaulding yn darllen ei ysgrif, nes yr oeddynt yn bur hyddysg â'i chynnwysiad, ac y proffesa roi 'hanes y deg llwyth Israel' a aethant ar goll, ac mai o honynt hwy yr hanodd yr Indiaid Americanaidd. Fe dystia y Peirch hyn hefyd eu bod hwy 'wedi darllen Llyfr Mormon, ac fod y rhan hanesyddol, yr enwau, &c., yn gyffelyb yn y ddau.'

Yn awr, er gweled pa faint o ymddiried a ddylid roi i dystiolaethau y Peirch hyn sydd wedi braidd lanw y byd ag ystoriau yn erbyn Llyfr Mormon, er gweled mai celwyddau yw yr oll a ddywedant, darllener y llyfr ei hunan, canys nid yw Llyfr Mormon yn proffesu rhoddi hanes y 'deg llwyth Israel,' nac ychwaith mai o 'honynt hwy yr hanodd yr Indiaid Americanaidd,' fel yr haerant hwy, ond y mae yn awr i'w weled mai hanes llwyth Joseph a ddyry Llyfr Mormon. Pe buasent wedi ei ddarllen fel yr haerant, sier y gwelsent y gwahaniaeth, ac yr arbedasid iddynt y gwarth o'r celwydd hwn!'

Dyma awduron goreu Mr. Heys a Mr. Livesey, a dyma awdurdodau y darlithwyr, awduron, a golygyddion Cymreig hefyd, heb eithrio Curadiaid Merthyr, ond bod Peter Ingersol a'i 'arffedoged tymod' gyda'r cl f. Mae y ddau yn weinidogion parchus gyda y Wesleyaid. Hona y ddau fod eu hanes wedi eu seilio ar ffeithiau. Sierha Mr. Heys fod ei dystion ef yn rai credadadwy, yn sier; ond haera Mr. Livesey yr un mor gadarn, fod ei dystion yntau mor eirwir ac anwrthwynebadwy! Pa beth a wneir? A raid credu y ddwy ochr, am fod y ddau Barchedig yn haeru eu bod yn wir, pan y maent mor groes i'w gilydd ag sydd yn bosibl. Ac os nad gwir y ddwy ffordd ar yr hanes wedi eu cadarnhau gan y fath ddynion â'r rhai hyn, pwy a greda fod un o honynt yn wir? Atebwn nad un dyn rhesymol a'u creda, ddim yn hwy nag y cânt gyfleusdra i glywed y ddwy ochr.

Nid ymhelaethwn ar y "Spaulding Romance," ond dymuno o'n calon, ar fod yr uchod yn foddion dan arddeliad Ysbryd y gwirionedd, i argyhoeddi ein cydgenedl anwyl, rhag ymguddio mewn noddfâu celwydd oddiwrth saethau y gwirionedd; ac fel na choelionl y chwedlau disail hyn a'r cyffelyb a draethir yn erbyn y Saint, serch eu hardystio gan deitlau uchel weithiau; ond "Profwch bob peth a deliwch yr hyn sydd dda" a fyddo ein harwyddair ni oll.

D. JONES.

ARGRAFFWYD AC ARGRAFFWYD GAN D. JONES, ABERTAWY.